

Cofnodion



Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Tachwedd 2020

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr J Watkins (Cadeirydd), H Thomas, J Richards, T Watkins, C Townsend, J Cleverly, Y Forsey and L Lacey

Sarah Morgan (Chief Education Officer), Andrew Powles (Assistant Head of Education - Engagement and Learning), Katy Rees (Assistant Head of Education - Inclusion), Deborah Weston (Assistant Head of Education - Resources) and Neil Barnett (Swyddog Llywodraethu)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr S Marshall and W Routley

1 Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr Stephen Marshall a William Routley

2 Datganiadau o ddiddordeb

Tudalen 17, Eitem 7 Cyhoeddodd y Cyngorydd Trevor Watkins fuddiant fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Parc Tredegar

3 2020/21 Adolygiadau Canol Blwyddyn y Cynllun Gwasanaeth

Mynychwyr -

- Sarah Morgan - Prif Swyddog Addysg
- Andrew Powell - Dirprwy Brif Swyddog Addysg
- Deborah Weston, Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau
- Katie Rees - Pennaeth Cynorthwyol Addysg - Cynhwysiant

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg yr adroddiad, gan adrodd bod y Gwasanaeth Addysg yn parhau i ddatblygu a darparu arweinyddiaeth a darpariaeth effeithiol, a adlewyrchwyd yn ymateb y gwasanaeth i bandemig Covid 19. Gweithiodd Addysg Ganolog gydag ysgolion i ddarparu gofal plant a chefnogaeth i blant gweithwyr beirniadol ac i ddysgwyr bregus. Ym mis Medi 2020, ailagorodd ysgolion yn unol ag amcanion adfer Cyngor Dinas Casnewydd a chanllawiau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â gweithrediadau ysgolion a datblygu dysgu cyfunol. Roedd timau canolog wedi parhau i weithio gydag ysgolion unigol i adolygu cyllid ysgolion a sicrhau gwerth am arian. Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

□ Beth oedd y sefyllfa o ran y ddarpariaeth grant ar gyfer GALIEG?

Esboniodd y Pennaeth Addysg fod y Cynghorau ledled Cymru, gan gynnwys Casnewydd, yn cael grant ar gyfer cefnogi disgyblion o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr neu a oedd â Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English. y byddai cyfrifiad y grant yn cael ei adolygu ac felly roeddem yn disgwyl gostyngiad yng nghyfraniad LIC. Roedd disgwyl i hyn achosi problemau gan na fyddem yn gallu cefnogi ein lefelau staffio presennol yn y maes hwn, ar hyn o bryd mae 100% wedi'i gefnogi gan incwm grant. Fodd bynnag, oherwydd Covid, roedd yr ail-gyfrifo hwn wedi'i ohirio felly roeddem wedi llwyddo i barhau am y tro gyda'r un lefel o grant. Dywedodd y Pennaeth Addysg fod gennym gynrychiolaeth dda ar y gweithgor ar gyfer Llywodraeth Cymru ac felly roeddem yn gobeithio y byddai arian ychwanegol yn dod drwy'r system.

- Gofynnodd aelod a oedd lefelau presenoldeb wedi gostwng yn sylweddol yn ystod cyfnod y pandemig.

Adroddodd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg fod lefelau presenoldeb yn isel iawn ddechrau mis Medi ond eu bod wedi cynyddu'n raddol hyd at hanner tymor ym mis Hydref, gyda'r gyfradd presenoldeb orau tua 83%. Er bod y lefelau'n dal yn llawer is na chyn Covid, roeddem yn 9^{fed} o ran safle o ran y 22 Awdurdod Lleol. Roedd ymgyrch yn y cyfryngau wedi'i lansio i annog teuluoedd i anfon eu plant yn ôl i'r ysgol ond ar hyn o bryd nid oeddem yn cael rhoi dirwyon am ddiffyg presenoldeb.

- Gofynnodd aelod pa fesurau oedd yn cael eu cymryd i gefnogi plant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac i sicrhau bod pob ysgol yn gweithredu 'ar faes chwarae cyfartal'

Ymatebodd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol (Cynhwysiant) fod y Gwasanaeth, ar ddechrau'r cyfyngiadau cloi, yn gweithio gyda phob ysgol i gwblhau asesiadau risg ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu tracio a'u cefnogi. Drwy gydol yr Haf roedd llinell gymorth ar gael i roi cymorth ychwanegol i sicrhau nad oedd disgyblion yn llithro'n ôl. Sefydlwyd grwpiau cymorth seicolegydd addysg hefyd er mwyn sicrhau bod lles a dysgu unrhyw ddisgybl ag anghenion ADY yn cael eu gwirio. Cafwyd grant hefyd i sefydlu tîm iechyd a chymorth y gallai pob ysgol gael mynediad iddo a gweithio gydag ef i sicrhau lles pob myfyriwr fel blaenoriaeth ysgol gyfan.

Defnyddiwyd adnoddau Sencom ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau golwg/clyw er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth, ac ymchwiliwyd i becynnau pwrpasol ar gyfer y disgyblion hynny sydd ag anghenion arbennig o gymhleth. Ehangwyd gwasanaethau cwnsela ar gyfer dysgwyr agored i niwed gyda chyllid ychwanegol er mwyn ehangu'r gwasanaeth hwn a chynigiwyd hyn hefyd i deuluoedd yn ogystal â disgyblion. Roedd gwasanaeth allgymorth awtistiaeth hefyd wedi'i lansio. Drwy gydol y cyfyngiadau cloi parhaodd y panel AAA i weithio i sicrhau bod y cyngor a'r cymorth diweddaraf wedi bod ar gael ac roedd y Swyddogion Lles Addysgol wedi parhau i weithio o'r Hybiau i roi cymorth i deuluoedd plant sy'n agored i niwed a chynnal gwiriadau lles ac ati. Roedd seicolegwyr addysg hefyd ar gael i roi cymorth a chyngor ychwanegol i staff a disgyblion. Ers mis Medi, gwiriwyd yr asesiadau risg hynny a oedd wedi'u cwblhau o bell ar y safle er mwyn sicrhau bod y lefelau cywir a'r math o

gymorth wedi'u rhoi ar waith. Bu cyswllt cyson drwy'r amser gyda Phenaethiaid i chwilio am atebion ar gyfer unrhyw faterion a gododd i ddysgwyr ADY.

- Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg fod y proffesiwn addysgu wedi gweithio'n galed iawn yn ystod cyfnod y cyfyngiadau cloi er mwyn sicrhau bod gan ysgolion lwyfannau cywir, fel ystafell ddogarth Google, er mwyn darparu cysondeb. Dros yr haf, roedd pob ysgol wedi cydlynu ar sut i addysgu, cyflwyno a chysylltu o bell. Roedd cyfnod yr Haf yn amser i ddal i fyny a gwirio ac amser cyfnod yr Hydref ar gyfer mireinio a gwella. Roedd y Gwasanaeth newydd anfon arolwg dysgu cyfunol i bob ysgol

yng Nghasnewydd i ddarganfod yn union pa gynlluniau oedd ar waith erbyn hyn, rhag ofn y byddai unrhyw achosion pellach o'r cyfyngiadau cloi yn cael eu gosod. Wrth symud ymlaen roedd angen sicrhau bod gan bob ysgol ei chynlluniau sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer dysgu cyfunol a byddai hyn yn cael ei wirio er mwyn sicrhau lefel o gysondeb ar draws holl ysgolion Casnewydd.

- Holodd aelod a oedd digon o offer wedi'i roi ar draws y Ddinas i bob dysgwr a sut y cafodd y rhai sy'n cael eu hysgol gartref eu monitro?

Ymatebodd y Pennaeth Addysg na ellid darparu ateb pendant gan mai mater i bob ysgol oedd darparu hynny. Fodd bynnag, roedd 800 o liniaduron a oedd wedi'u hadnewyddu a 3000 o unedau MiFi wedi'u benthyca a chafodd archeb fawr am liniaduron ychwanegol ei wneud, ond gan fod y galw mor fawr yn genedlaethol, nid oedd disgwyl y byddai'r archeb hon yn cael ei derbyn am ychydig fisoedd eto. Aethpwyd at fusnesau lleol i ddod o hyd i unrhyw stoc dros ben y gellid eu rhoi a'u hadnewyddu at ddefnydd yr ysgol. Parhaodd y ddeialog ag ysgolion er mwyn sicrhau bod pecynnau adnoddau wedi'u hargraffu ar gael i unrhyw ddisgybl nad oedd yn gallu cael gafael ar dechnoleg briodol. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg fod rhai teuluoedd, yn ystod y pandemig, wedi dewis addysg gartref oherwydd problemau gorbryder uchel, a bu'n rhaid i ni sicrhau bod y teuluoedd yn deall y canlyniadau o beidio â chael yr adnoddau a ddarperir iddynt, megis dysgu cyfunol a pheynnau gwybodaeth. Mewn amgylchiadau arferol, ar ôl iddynt ddewis addysg gartref yna byddent yn colli lle ar gofrestr yr ysgol a byddai angen iddynt ailymgeisio os ydynt yn dymuno ailymuno â'r system ysgolion. Yn ystod cyfnod o ynysu neu'r cyfnod atal byr, roedd yr awdurdod yn gallu darparu cymorth tymor byr gyda dysgu ond os mai dewis y rhiant oedd parhau am gyfnod hwy, yna nid oedd gennym yr adnoddau ac nid oedd yn ofynnol i ni ddarparu cymorth hirdymor. Cynhaliodd swyddfeydd lles addysg archwiliad blynyddol o'r plant hynny, ond nid oedd gan yr Awdurdod Lleol ddigon o adnoddau i gynnal gwiriadau manylach ar y plant hynny a oedd yn cael eu haddysgu gartref yn ddewisol. Yr oedd y rhieni i bob pwrpas yn ymgymryd â'r rôl o sicrhau darpariaeth addysg y plentyn, ac yr oeddent yn ymgymryd â'r rôl yr awdurdod lleol yn hynny o beth.

- Gofynnodd yr Aelodau a ragwelwyd unrhyw faterion pwysig tua diwedd y flwyddyn gyda'r gyllideb ac amlinellu'r sefyllfa bresennol gydag ysgolion mewn diffyg.

Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg fod cyllid ysgolion uwchradd wedi bod yn bryder ers tro. Roedd pum adolygiad annibynnol wedi'u cwblhau gan dimau mewnol, y Rhaglen Ymddygiad a Gwella ac wedi'u hategu gan arbenigwr annibynnol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ysgolion uwchradd â diffygion sylweddol ac yn asesu gwerth am arian. Er ei fod yn teimlo bod rhai ysgolion

yn mynd i'r afael â phob agwedd ar faterion yn briodol ac nad oedd angen unrhyw newidiadau, nododd yr adroddiadau fod ysgolion yn adolygu eu dulliau addysgu a dysgu, ac argymhellodd rhai adolygiad o'u strwythurau arwain. Yn dilyn cwestiwn pellach yn gofyn faint o ysgolion oedd naill ai mewn dyled neu mewn perygl o ddiffyg, dywedodd y Pennaeth Addysg ei bod yn credu bod y niferoedd ar hyn o bryd yn 5 ysgol Uwchradd a 3 ysgol gynradd yn y sefyllfa honno. Fodd bynnag, er bod diffyg yn parhau, roedd llawer wedi datrys eu diffyg yn ystod y flwyddyn drwy ystyried argymhellion gan atal dyled bellach rhag cronni. Roedd yn anodd rhagweld y rhai a oedd mewn perygl yn y dyfodol oherwydd y ffordd yr oedd ysgolion yn defnyddio'u cyllideb. Efallai fod ysgolion wedi bod mewn sefyllfa dda a gallent ddefnyddio eu cynilion am gyfnod o amser, ond unwaith y defnyddiwyd yr arbediad hwnnw, byddai'n rhaid iddynt gydnabod na allai lefel y gwariant barhau. O ran y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, rhagwelwyd y byddai'r holl ddangosyddion yn wyrdd erbyn hynny. O ran risg, mater i gyllid Llywodraeth Cymru a phenderfyniadau a wneir gan y Cabinet fyddai hyn.

Gadawodd yr aelod Cabinet Giles y cyfarfod ar hyn o bryd.

Dywedodd y Pennaeth Addysg, er bod ysgolion yn ceisio lleihau eu diffygion, nad oedd hyn o reidrwydd yn golygu diswyddiadau staff addysgu. Roedd y Gwasanaeth yn gallu edrych ar arfer gorau a rhoi syniadau i ysgolion sut i gydbwysu eu llyfrau yn y ffordd orau a gallai hyn fod yn edrych ar nwyddau a gwasanaethau, contractau ac ati. Pan ofynnwyd ai Casnewydd oedd yr Awdurdod a ariannwyd gwaethaf yng Nghymru, dywedodd y Pennaeth Addysg fod y datganiad hwn yn anghywir a bod y data, yn ei barn broffesiynol, wedi'i ystumio gan y defnydd o ddata meincnodi amwys a hen, ac nad oedd Casnewydd mewn gwirionedd mor ddifreintiedig ag yr oedd tablau Llywodraeth Cymru i'w gweld yn dangos.

- Gofynnodd aelod am y cynllun gweithredu a'r mesurau lliniaru ynghylch pwysau lleoedd mewn ysgolion.

Sicrhodd y Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau'r aelodau fod digon o leoedd ar draws y Ddinas ond nad oeddent o reidrwydd yn yr ardaloedd lle'r oedd y rhan fwyaf o alw gan rieni. Roedd gweithgor dyrannu a oedd yn monitro'r galw'n benodol ac roeddent yn gweithio gydag Adrannau eraill fel Cynllunio i sicrhau y cytunwyd ar ddigon o arian Adran 106 cyn i ddatblygiadau tai newydd ddechrau. Ychwanegodd fod ymgynghoriad newydd orffen yn gynigion i gynyddu capasiti yn ysgol Basaleg lle'r oedd y galw'n uchel. Gallent hefyd ddiwygio dalgylchoedd pan a lle bo angen.

- Gofynnodd aelod beth oedd ar waith i gefnogi iechyd meddwl y plant a'r staff.

Dywedodd y Pennaeth Addysg fod y gwasanaeth Gofal yn Gyntaf ar gael i'r holl staff ynghyd ag atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol pan oedd angen, a darparodd yr Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol gymorth i benaethiaid. Roedd yr uwch dîm arweinyddiaeth wrth law i ddarparu unrhyw gymorth a chynghor ychwanegol yn ôl yr angen. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda grŵp mawr o grwpiau penaethiaid yn rheolaidd i ddarparu gwybodaeth ac i drafod materion fel cyfarpar diogelu personol, gorchuddion wyneb, cludiant i'r ysgol, glanhau ac ati. Roedd holl staff yr ysgol wedi bod yn anhygoel yn ystod y cyfnod hwn a oedd wedi bod yn hanfodol i gynnal dysgu. Ychwanegodd y Pennaeth Cynorthwyol Addysg - Cynhwysiant eu bod wedi derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ehangu'r gwasanaeth cwnsela i bobl ifanc. Roedd ganddynt gyfleuster galw heibio fideo a sgysiau, cwnsela cymunedol rhithwir,

gwasanaethau cwnsela dros y ffôn i rieni a disgyblion. Cyfarfu seicolegwyr addysg hefyd â staff er mwyn nodi anghenion unigol a darparu cymorth.

- Gofynnodd aelod pwyl oedd yn gyfrifol am bennu maint 'swigod' o fewn ysgolion a dilysrwydd unrhyw fesurau ynysu.

Ymatebodd y Pennaeth Addysg fod yr ysgolion eu hunain yn pennu maint y swigod. Roedd yn haws yn y lleoliad cynradd cael swigod llai ond yn fwy anodd mewn ysgolion uwchradd lle'r oedd niferoedd mor fawr o ddisgyblion sydd angen addysgu arbenigol yn ôl pwnc. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bod yn ddilys cael y grŵp blwyddyn cyfan fel swigen ond roedd hyn wrth gwrs â manteision ac anfanteision. Er ei fod yn golygu bod y disgyblion yn gallu cael cwricwlwm eang a chytbwys gydag addysgu arbenigol a gwyliau rheolaidd, pe bai'r broses Tracio, Orlhain a Diogelu yn nodi achos positif, yna byddai'n rhaid i'r grŵp blwyddyn gyfan ynysu. Roedd yr ysgolion yn gwneud eu gorau glas gyda'r asesiadau risg a roddwyd ar waith er mwyn darparu cymaint o barhad addysgu ag y gallent yn ystod yr amseroedd hyn. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth ei chefnogaeth i'r mesurau Tracio, Orlhain a Diogelu a dywedodd fod y Cyngor yn siŵr o ddilyn y rheolau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyfnodau ynysu, gorchuddion wyneb ac ati. Gyda 370 o grwpiau blwyddyn gwahanol ar draws ysgolion uwchradd, yr wythnos flaenorol bu 16 yn hunanynysu. Roedd yn anffodus ei bod yn ymddangos bod gan rai ysgolion fwy o achosion positif nag eraill ond roedd allan o reolaeth unrhyw un. Roedd penaethiaid yn ymwybodol o rwystredigaethau rhieni ond o dan yr amgylchiadau ni allent weld unrhyw ffordd arall o ddarparu'r gwasanaeth y byddent am ei gael drwy gyflwyno grwpiau cyswllt llai.

- Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am Bolisiau y trefnwyd eu gweithredu'n wreiddiol erbyn yr Hydref -

Protocol Hunan-niweidio a Hunanladdiad – roedd Casnewydd yn rhan o weithgor rhanbarthol ar hyn. Ar hyn o bryd, roedd gydag lechyd yr Amgylchedd i gwblhau eu rhannau perthnasol ac yna byddai'n barod i'w rhyddhau. Hyfforddiant Diogelu ar gyfer Staff - gan fod hon yn rhaglen safonol a ddarparwyd ar-lein, roedd yr holl staff perthnasol yn gallu cwblhau'r modiwlau hyfforddiant angenrheidiol.

Polisi Arfau – yn aros am adborth terfynol o'r Gwasanaeth Heddlu ar rai pwyntiau, ond roedd popeth a dreialwyd yn flaenorol bellach yn cael ei ddefnyddio ac roedd y canllawiau ar waith yr oedd ysgolion bellach yn eu dilyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Addysg am ei hadroddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor ac ar ran yr holl aelodau a oedd yn bresennol gofynnodd i'w gwerthfawrogiad diffuant gael ei drosglwyddo i'r holl staff sy'n gweithio yn yr Ysgolion a ledled y Gwasanaeth am eu gwaith caled a'u hymroddiad yn ystod argyfwng Covid.

Casgliadau – Sylwadau i'r Cabinet

Nododd y Pwyllgor Adolygiadau Canol Blwyddyn y Cynllun Gwasanaeth a chytunon nhw i anfon y cofnodion at y Cabinet fel crynodeb o'r materion a godwyd.

Roedd y Pwyllgor yn dymuno cyflwyno'r sylwadau canlynol i'r Cabinet:

1. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod yr heriau a wynebwyd gan y Gwasanaeth Addysg yn ystod y pandemig a chanmolodd barhad y gwasanaeth yn ystod y cyfnod heriol hwn.

2. Roedd y pwyllgor yn dymuno ymchwilio ymhellach i'r Cyngor Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a dysgu sut roeddent wedi bod yn gweithredu yn ystod y cyfnod pandemig yn benodol.
3. Dymunodd y Pwyllgor dderbyn prif adroddiad ar ganlyniadau'r arolwg i'r cynllun ar gyfer dysgu cyfunol.

4 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Gwahoddedigion

- Neil Barnett – **Swyddog Llywodraethu**

Cyflwynodd y swyddog y Flaenraglen Waith, a dywedodd wrth y Pwyllgor am y pynciau oedd i'w trafod yn y ddau gyfarfod Pwyllgor nesaf:

- 19 Ionawr 2021/22
- Cynigion Cyllideb Ddrafft

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm